## POSTER 01.

## CARDIFF TO THE SEE - ANI SAUNDERS.

Dechreuodd prosiect *Cardiff to the See* fel cyfres o ddelweddau'n dogfennu'r newidiadau yn nhirlun y ddinas ôl-ddiwydiannol a oedd yn datblygu'n gyflym o 'nghwmpas. Roedd gen i ddiddordeb greddfol mewn ceisio creu naratif a fyddai'n cyfuno delweddau hiraethlon y ddinas wleb, lwyd a diflas y ces fy magu ynddi â'r weledigaeth gyfoes o ddinas lân, fodern ac efallai, di-gymeriad, sy'n tyfu o'n cwmpas heddiw.

Nid cyflwyno'r ddinas fel y mae hi oedd y bwriad, ond yn hytrach y ddinas fel rwy'n ei gweld hi. Felly, roedd cadw fy argraffiadau o anadliadau olaf yr hen Gaerdydd ar gof yn gyfrwng i danlinellu'r tensiwn a'r cyfosodiad rhwng fy nghanfyddiad i o'r hiraethlon a'r newydd. I ba raddau y dylai treftadaeth adeiledig dinas lywio unrhyw weledigaeth am ddyfodol ac uchelgais y ddinas honno?

O ganlyniad, er i hyn ddechrau fel platfform i gyfleu'r gwahaniaeth rhwng bywiogrwydd lliwgar cymdeithas aml-ddiwylliannol a chynhesrwydd llwm a briwedig yr hen Gaerdydd, datblygais i arddull ffotograffig anturus a mwy haniaethol: Rwy'n casglu delweddau sy'n dangos y berthynas rhwng pensaernïaeth a golau, a'r ddinas fel rwy'n ei gweld hi, er mwyn crisialu fy mherthynas i â'i ffurf adeiledig.

Rwyf bellach yn defnyddio fy nelweddau fel rhan o weithiau celf mwy cryno a chyflawn, rhai sy'n cynnwys collage, paentio a dylunio. Gan fy mod yn artist, o ran steil ac arddull, sy'n dueddol o baentio ei hunan mewn i gornel (yn llythrennol), mae hyn wedi rhoi cryn dipyn o ryddid a hyder i mi i arbrofi gyda'r ffurf newydd hyn o fynegiant. Mewn gwirionedd, dyma'r lefel o ryddid a hyder yr hoffwn ddod o hyd iddo ym mhob agwedd o fy mywyd – y sialens yw parhau i fentro tra bod modd gwneud.



Mae **Ani Saunders** yn artist, ffotograffydd ac yn gantores bop electronig sy'n perfformio o dan yr enw Ani Glass. Ei gwaith diweddaraf, nodedig, yw'r EP Ffrwydrad Tawel, a ysbrydolwyd gan arddangosfa Ivor Davies a gynhaliwyd yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd. Yn wreiddiol o ardal Glan-yr-Afon yng Nghaerdydd, bellach mae'n byw yn y gymuned drws nesaf, Grangetown, sydd yn ffinio ar Drebiwt a Bae Caerdydd. Magwyd Ani yn y Gernyweg a'r Gymraeg, ac mae ei thad a hithau yn aelodau o Orsedh Kernow. Graddiodd Ani yn wreiddiol o Brifysgol John Moores yn Lerpwl ym maes Ffasiwn a Dylunio Tecstilau a llynedd fe ddychwelodd i addysg uwch i gwblhau gradd Meistr yn Adran Daearyddiaeth a Chynllunio ym Mhrifysgol Caerdydd. Eleni mae hi wedi dechrau PhD, sy'n rhan o brosiect Ewropeaidd ehangach, fydd yn ffocysu ar ddatblygiad rhanbarthol ac economaidd yng Nghymru. Mae'n ymddiddori'n fawr mewn materion cyfoes, diwylliannol a ieithyddol.





